



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 10FED HYDREF, 2019**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN YSTAFELL GWYRFAI  
AM 10.00 Y.B.**

Lleoliad

**Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 2 Hydref 2019)

# **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

## **AELODAETH (18)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Steve Collings  
E. Selwyn Griffiths  
Elin Walker Jones  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
Mair Rowlands

Aled Ll. Evans  
Judith Mary Humphreys  
Gareth Jones  
Olaf Cai Larsen  
Paul John Rowlinson

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham  
Beth Lawton  
Elfed Powell Roberts

Elwyn Jones  
Dewi Wyn Roberts

### **Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Gareth Williams

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Dewi Owen

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

Anest Gray Frazer

Eglwys yng Nghymru

[sedd wag]

Yr Eglwys Gatholig

Dylan Davies

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr  
Meirionnydd

Karen Vaughan Jones

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr  
Dwyfor

[sedd wag]

Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr  
Arfon

### Heb Bleidlais:

Dilwyn Elis Hughes

UCAC

David Healey

ATL

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

6 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. CYNLLUN GWYNEDD: CYNLLUN ELWA O DWRISTIAETH

9 - 12

**Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

**\*10.30yb – 11.15yb**

## 6. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

13

**Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

**\*11.15yb – 11.25yb**

## 7. CYNLLUN PEILOT Y CANOLFANNAU IAITH

14 - 16

**Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

**\*11.25yb – 12.10yp**

\*amcangyfrif o'r amseroedd

Cynhelir sesiwn anffurfiol ar gyfer yr aelodau ar derfyn y cyfarfod.



---

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2019

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd).  
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Dewi Roberts ac Elfed Roberts.

**Aelod Cyfetholedig:** Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**

Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)  
Sian Eirug (Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Dros Dro)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:**

Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)  
Gwenan Ellis Jones (Cydlynnydd Siarter Iaith)

Croesawyd y Cynghorwyr Elin Walker Jones a Gareth Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson yn gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2019/20.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Elwyn Jones yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2019/20.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr:- Huw Wyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Williams;  
David Healey (ATL);  
Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Aelod Cabinet Addysg).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2019 fel rhai cywir, yn amodol ar ychwanegu cyfeiriad at edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda siroedd y Gorllewin dan eitem 8 - Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru.

## **7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar weithrediad ac effaith y Strategaeth Iaith Uwchradd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Oherwydd y cyd-blethu amlwg rhwng y Strategaeth Iaith Uwchradd a Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd, craffwyd y Siarter Iaith Cynradd hefyd cyn crynhoi'r prif gasgliadau'r trafodaethau ar y ddwy eitem ar y diwedd.

## **8. SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar weithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd y prif gasgliadau a'r argymhellion yn codi o'r drafodaeth ar y Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Strategaeth Iaith Cynradd fel a ganlyn:-

- Bod neges glir gan yr aelodau i fod yn cadw troed ar y sbardun a pharhau gyda'r bwrllwm, ayb, gan ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae hynny'n benodol er mwyn sicrhau rhoi statws i'r Siarter Iaith, fel rhan o'r cwricwlwm newydd (er bod peth pryder ei fod yn rhedeg ochr yn ochr, yn hytrach nag yn rhan greiddiol ohono), a hefyd er mwyn sicrhau bod statws i'r Siarter Iaith fel rhan o gynlluniau pob un ysgol.
- Bod neges hefyd ynglŷn â rhannu arferion da, gan sicrhau bod hynny'n digwydd yn y cynradd a'r uwchradd yn gyffredinol, a hefyd bod angen adnabod ymarferion da mewn meysydd diddordeb newydd, lle rydym efallai angen canolbwyntio mwy ar yr ochr gwefannau cymdeithasol, y we, rhaglenni teledu ayb.
- Bod neges hefyd ynglŷn â'r gwaith sy'n ddibynnol ar yr holl staff o fewn ein hysgolion ac anogaeth gref i geisio lledaenu'r neges y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, gyda rhieni a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- O ran y data, bod gwell dealltwriaeth ymysg yr aelodau o'r data a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn, ond efallai bod lle i ystyried ail ymweld â'r gwaelodlin gwreiddiol a diweddarau aelodau'r pwyllgor maes o law pan fydd astudiaeth y Llywodraeth i'r maes yn aeddfed.
- Yn benodol o ran y Strategaeth Iaith Uwchradd, bod lle i ystyried ymestyn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc hŷn (y grŵp oedran 16-18) er mwyn gweld oes yna wersi i'w dysgu, ac o ddysgu'r gwersi, addasu'r cymorth a'r gefnogaeth a'r ymyrraeth sy'n cael eu cynnig.
- Bod lle hefyd i fod yn gwthio'r gweithio gyda'r disgyblion i annog mwy o ddwyieithrwydd a bod hynny'n digwydd yn barhaus o fewn ein hysgolion gan annog disgyblion i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol. Hefyd, dylid sicrhau cefnogaeth i'r athrawon, i'r gweithwyr ieuenctid ac i bawb sydd ynghlwm â hyrwyddo'r Strategaeth Iaith i fod yn cynorthwyo gyda'r Strategaeth yn yr uwchradd a'r Siarter Iaith cynradd.

- Bydd angen edrych y tu allan i'r pwyllgor ar sut y gall yr aelodau gael blas o'r hyfforddiant seicoleg iaith.
- Bydd angen rhoi sylw yng nghyfarfod anffurfiol y pwyllgor i ambell fater arall a gododd yn ystod y drafodaeth, ond nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ddau faes dan sylw, sef yr angen i gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd o ran datblygiadau penodiadau categorïau iaith ysgolion, diffyg gwrslyfrau / deunyddiau Cymraeg i ddisgyblion ysgol a phrinder myfyrwyr yn arwain at ddiswyddiadau yn Ysgol Addysg Prifysgol Bangor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

## **CADEIRYDD**



# Eitem 5

Cyfarfod:	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad:	10 Hydref 2019
Teitl:	<b>Cynllun Gwynedd: Prosiect Elwa o Dwristiaeth</b>
Awduron:	Roland Evans Uwch Reolwr Diwylliant a Chymuned Sian Jones Rheolwr Twristiaeth a Marchnata Adran Economi a Chymuned
Aelod:	Cynghorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet Economi a Chymuned

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er mwyn diweddarau a chraffu ar brosiect Elwa o Dwristiaeth sy'n ran o Gynllun Gwynedd.

## 2 Cefndir

- 2.1 Mae'r sector twristiaeth yn bwysig i Wynedd ac mae'r tîm twristiaeth o dan raglen waith Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:
- Marchnata Digidol – yn cynnwys gwefan [www.ymweldageryri.info](http://www.ymweldageryri.info) a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig
  - Digwyddiadau – darparu cymorth ariannol ar gyfer digwyddiadau o'i gyllideb ei hun a chronfa strategol ganolog – darparwyd cymorth i fwy na 25 o ddigwyddiadau yn 2018, yn cynnwys rhai'n gysylltiedig â bwyd, rhedeg, chwaraeon dŵr, triathlon, a gwyliau cerddorol
  - Cydgysylltu â'r diwydiant – yn enwedig drwy hwyluso'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan
  - Rheoli'r berthynas â Croeso Cymru – yn cynnwys cyflwyno ceisiadau ar gyfer gweithgareddau penodol a ariannwyd a'u darparu, un ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos.
- 2.2 Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y sector hwn a manteisio ar y potensial i elwa o'r holl ymwelwyr sy'n ymweld a'r Sir, yng Nghynllun Gwynedd - a fabwysiadwyd ar 8 Mawrth 2018; nodwyd y canlynol ar gyfer prosiect datblygol yn y maes twristiaeth:

*Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'r sector yn cyfrannu £1biliwn i'r economi'n flynyddol ac yn cyflogi dros 15,000 yn y sir.*

*Er hyn, mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir, cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.*

*Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth trwy wahanol fodolau posib e.e. cynllun rhodd gwirfoddol, cynllun treth lleol & chynlluniau nawdd. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a thrigolion lleol.*

- 2.3 Ein pwrpas trwy'r prosiect Elwa o Dwristiaeth felly yw:

*Atgyfnerthu statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd rhyngwladol trwy*

*archwilio a gweithredu'r opsiwn gorau er mwyn sicrhau bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o'r twristiaid sy'n ymweld a'r Sir.*

#### 2.4 Prif fuddiannau all ddeillio o'r prosiect

- Bydd statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd ryngwladol yn cael ei warchod a'i atgyfnerthu trwy fuddsoddi'r elw ddaw o unrhyw gynllun yn y sector a'n cyrchfannau;
- Bydd Gwynedd wedi adnabod y dull gorau o elwa o'r ymwelwyr sy'n ymweld a'r sir er mwyn cynnal y cynnig sydd ar gael yma a datblygu'r sector a'n cyrchfannau;
- Bydd Pobl Gwynedd yn elwa o gyrchfannau bywiog a deniadol a swyddi o ansawdd yn y sector twristiaeth;
- Bydd y sector twristiaeth a Phartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd wedi hatgyfnerthu a chynllun hunan-gynhaliol i gefnogi'r sector a'n cyrchfannau wedi eu sefydlu erbyn diwedd blwyddyn 3 o'r Prosiect

### **Cynnydd**

2.5 Sefydlwyd Grŵp Prosiect mewnol i gefnogi gweithrediad y prosiect ac i gytuno ar raglen waith.

2.6 Er mwyn cefnogi ein prosiect a sicrhau bod y sector yn cefnogi'r gwaith ymchwil, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda Phartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd a rhanddeiliaid allweddol yn y maes ar 10 Hydref 2018.

2.7 Bwriad y cyfarfod oedd adolygu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, amlygu'r cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol ac adnabod ffyrdd posib o gyllido blaenoriaethau a chefnogi'r sector twristiaeth, cyrchfannau ac adnoddau eithriadol Gwynedd i'r dyfodol.

2.8 Yn sgîl y cyfarfod hwnnw, datblygwyd Bwrdd Llywio Prosiect gyda chynrychiolaeth amrywiol o: Gyngor Gwynedd, Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig, Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Rhwydwaith Busnes Gwynedd a chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth.

2.9 Er mwyn cefnogi'r prosiect, datblygodd y Bwrdd Prosiect Brîff i'w gomisiynu gan ymgynghorwyr. Nod y comisiwn oedd canfod ymgynghorwyr addas a phrofiadol er mwyn adnabod model gweithredu ffafriedig gan ystyried y gefnogaeth i'r opsiwn gan y sector a'r Cyngor, y gost o'i weithredu a'r budd posib allai ddeillio o'i weithredu. Roedd angen i'r ymgynghorwyr hefyd ystyried yr holl waith ymchwil sydd wedi ei wneud i'r maes yma yng Ngwynedd ers 2013.

### **3 Brîff y Comisiwn Elwa o Dwristiaeth**

3.1 Rhannwyd prif dasgau'r comisiwn i ddau gam:

Cam 1 - Aseiad or modelau posibl

Cwblhau aseiad fydd yn ystyried y canlynol:

- Modelau neu gynlluniau ariannu llwyddiannus mewn ardaloedd eraill;
- Modelau a weithredir oddi fewn i Wynedd yn barod, gwersi a ddysgwyd trwyddynt ac ystyriaeth os oes modd ymestyn y rhain i weithredu ar draws Gwynedd;
- Darpariaeth gyfredol o gefnogi Rheolaeth Cyrchfannau twristiaeth Gwynedd;
- Bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth sydd angen derbyn sylw trwy'r

model gweithredu a argymhellir ac ystyried blaenoriaethau posib ar sail y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan;

- Canfod barn a mewnbwn y sector ar lein i unrhyw fodolau gweithredu posibl.
- Adroddiad yn crynhoi'r uchod.

#### Cam 2 – Argymhelliad a modelau cyllido

- Darparu gweledigaeth a blaenoriaethau buddsoddi posib i'r dyfodol
- Adnabod y model gorau i wireddu'r cynllun rheolaeth cyrchfan, cefnogi datblygiad y sector a'r cynnig yn lleol;
- Darparu model a strategaeth gweithredu ar gyfer cyflawni'r model ar buddion rheolaeth cyrchfan yn gysylltiedig a hynny;
- Darparu costau manwl ar gyfer sefydlu a gweithredu'r model gan gynnwys darparu amcan o'r incwm posib ellid ei gyflawni o'i weithredu;
- Adroddiad drafft yn amlinellu Cam 1 a Cham 2;
- Cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil i bwyllgorau perthnasol;
- Darparu Adroddiad, Achos Busnes a Chynllun Gweithredu terfynol.

#### **4. Diweddariad**

4.1 Yn dilyn proses gaffael agored ar gwerthwchigymru, bu i'r Cyngor benodi Bluechip Tourism ac RJS i ymgymryd a'r gwaith ymchwil ar ran y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli Prosiect a chynhaliwyd gweithdy ychwanegol gyda'r sector ar 11 Mawrth 2019 yn ogystal â thrafodaethau unigol gyda rhanddeiliaid. Datblygwyd holiadur arlein i adnabod blaenoriaethau a barn yn ehangach wrth symud ymlaen gyda'r argymhellion.

4.2 Mae adroddiad drafft wedi ei dderbyn sy'n amlygu bod newid yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n rhaid digwydd gan y Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan ac mai'r blaenoriaethau buddsoddi fyddai ansawdd y profiad (yn cynnwys isadeiledd elfennol) a marchnata arlein.

4.3 Mae pedwar prif opsiwn ar gyfer cynhyrchu refeniw yn cael eu hamlygu er ystyriaeth:

##### 4.3.1 Cynllun Rhodd Ymwelwyr (wedi'i seilio ar Rhodd Eryri)

O dan yr opsiwn yma, byddai ymwelwyr yn cael eu hannog i gyfrannu'n wirfoddol tuag at gynllun rhodd ymwelwyr mewn gwestai, atyniadau, llety gwyliau neu gyrchfannau penodol er mwyn cefnogi cynlluniau megis gwaith cadwraeth, cynnal cyrchfan, atyniad, diwylliant a iaith ayb. Byddai hwn yn ymestyniad o'r Cynllun Peilot Rhodd Eryri ond yn cael ei weithredu ar draws Gwynedd, o bosib wedi ei selio ar yr 8 Ardal Llesiant.

##### 4.3.2 Ardal Gwella Busnes (AGB) Twristiaeth

O dan yr opsiwn yma byddai model tebyg i AGB Caernarfon a Bangor yn cael ei ddatblygu ar draws holl fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Ngwynedd. Byddai ardoll yn cael ei godi ar drethi busnes cysylltiedig a'r sector twristiaeth. Mae hefyd modd trosglwyddo'r cyfraniad 'ardoll' hwn i'r ymwelydd trwy godi rhai prisiau / ffioedd.

##### 4.3.3 Ardoll Dwrystiaeth

Byddai'r opsiwn yma'n datblygu ardoll i'w roi ar bob ymwelydd â Gwynedd. Mae'n debyg mai trwy'r sector llety ac atyniadau fyddai'r ffordd hwylusaf o gasglu'r arian – ond nid oes grym gan y Cyngor ar hyn o bryd i godi'r fath ardoll orfodol. Byddai hwn yn ymdebygu i'r dreth

dwrastiaeth leol a welir mewn nifer o gyrchfannau tramor.

#### 4.3.4 Masnacholi mewn gwahanol ffyrdd

Ceisio cael cwmnïau neu sefydliadau eraill i noddi cynnyrch a gwasanaethau e.e cylchfannau, toiledau, llyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr, digwyddiadau ayb

- 4.4 Mae gwahanol gryfderau a gwendidau i'r holl opsiynau hyn ac mae eu gallu i gynhyrchu refeniw yn amrywio'n sylweddol hefyd.
- 4.5 Mae'n rhaid cydnabod hefyd y gallai rhai opsiynau fod yn gynhennus gyda'r sector twristiaeth yng Ngwynedd a mae rhai lle nad oes hawl gan y Cyngor i'w gweithredu ar hyn o bryd.

### 5. Cyd-destun ehangach

- 5.1 Bu i'r Cyngor gynnal adolygiad o stoc lletai Gwynedd yn ystod 2018-2019. Mae nifer o ystyriaethau'n deillio o'r adolygiad hwnnw all ddylanwadu a llywio ein gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf.
- 5.2 Mae'r Cyngor yn y broses o adolygu ein Cynllun Rheolaeth Cyrchfan gan adnabod blaenoriaethau buddsoddi newydd i'r dyfodol yn ogystal â model gweithredu newydd ar gyfer Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd.
- 5.3 Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Strategaeth Dwrastiaeth newydd i Gymru a bydd angen i ni ystyried y Strategaeth honno i'r dyfodol ar gyfer e.e. cronfeydd ariannu, datblygiadau twristiaeth strategol, cynnal a chryfhau'r sector yng Ngwynedd ayb.
- 5.4 Mae'r Cyngor yn cynnal ymchwil ac adolygiad i'r maes ail-gartrefi a pholisi cynllunio ar hyn o bryd allai lywio ein polisiau a'n blaenoriaethau i'r dyfodol.
- 5.5 Yng ngoleuni'r uchod y bwriad yw i'r Cyngor ddatblygu fframwaith o egwyddorion ar gyfer y maes twristiaeth er mwyn adlewyrchu'r holl adolygiadau, datblygiadau newydd ac wrth gwrs ymchwil cychwynol y prosiect Elwa o Dwrastiaeth er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r dyfodol.

### 6. Amserlen

Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol:

<b>Hydref 2019</b>	Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Tachwedd+Rhagfyr</b>	Datblygu Fframwaith Egwyddorion Twristiaeth Gwynedd
<b>Ionawr – Mawrth 2020</b>	Datblygu Cynllun Twristiaeth newydd i Wynedd Ymgynghoriad gyda'r sector Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu
<b>Ebrill 2020</b>	Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd am benderfyniad
<b>Ebrill 2020 →</b>	Mabwysiadu'r Cynllun Twristiaeth Gweithredu'r opsiwn a ffefrir gan y Cabinet

### 7. Casgliad

- 6.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu'r drefn weithredu ar gyfer y prosiect Elwa o Dwrastiaeth.
- 6.2 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu'r Fframwaith Twristiaeth i'r dyfodol pan yn amserol gwneud hynny.

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	10 Hydref 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cyng. Gareth Thomas
<b>Swyddog Cyswilt:</b>	Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned
<b>E-bost a Ffôn Cyswilt:</b>	<a href="mailto:llyrbjones@gwynedd.llyw.cymru">llyrbjones@gwynedd.llyw.cymru</a> Est 32219
<b>Adran:</b>	Economi a Chymuned
<b>Eitem:</b>	Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli

## Cefndir a Chyd-destun

1. Bu i chi dderbyn adroddiad 'nol yn Nhachwedd 2018 yn nodi bod achos dros newid yn bodoli ar gyfer yr Hafan ym Mhwllheli ac felly gytuno i'r Cyngor symud ymlaen i Gam 2, sef cwblhau gwaith manwl ar yr opsiynau canlynol:
  - Cyflwyno gwelliannau i drefniadau presennol
  - Rheolaeth i aros o fewn y Cyngor gyda rhaglen fuddsoddi
  - Creu cwmni hyd fraich
  - Menter ar y cyd gyda darparwyr preifat
  - Prydlesu'r safle.
2. Er mwyn bwrw 'mlaen gyda Cham 2, sefydlwyd tîm prosiect amlddisgyblaethol a phenodwyd arbenigwyr allanol ar gyfer datblygu'r achos fusnes.
3. Yn ystod y gwaith cychwynnol gyda'r ymgynghorwyr allanol, penderfynwyd dylid ymgorffori holl asedau'r Cyngor o ran safle'r Harbwr a'r Hafan fel bod popeth yn derbyn ystyriaeth yn y gwaith o ddatblygu'r opsiynau uchod ymhellach.
4. Mae'r Bwrdd Prosiect a sefydlwyd yn cynnwys Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned, aelodau lleol a swyddogion.
5. Ers penodi'r ymgynghorwyr yn gynharach eleni, mae'r Bwrdd Prosiect wedi gweithio'n agos gyda'r ymgynghorwyr i edrych ar ystod o ystyriaethau sy'n berthnasol i'r Hafan a Harbwr Pwllheli; mae rhain yn cynnwys agweddau cyfreithiol, eiddo, cyllid a thueddiadau o fewn y farchnad forwrol.
6. Disgwylir adroddiad terfynol gan yr ymgynghorwyr erbyn canol fis Hydref.

## Amserlen a chamau nesaf

7. Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu hwn yn ei gyfarfod nesaf ar 21/11/19.

# Eitem 7

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Teitl yr Adroddiad</b>	Cynllun Peilot y Canolfannau Iaith
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	10 Hydref 2019
<b>Swyddog Perthnasol</b>	Debbie Jones Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg
<b>Aelod Cabinet Perthnasol</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd weithredu cynllun peilot mewn un Canolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrraedd y plant.
- 1.2 Er mwyn gallu gweithredu'r cynllun peilot, bu i'r Cabinet hefyd gymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwch ariannol rhwng y gyllideb oedd ar gael a chost cynnal y gwasanaeth yn yr un cyfnod.
- 1.3 Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r ystyriaethau fydd yn rhan o'r ymchwil er mwyn asesu effaith gweithredu'r peilot mewn un Canolfan Iaith.

## 2. MESUR EFFAITH CYNLLUN PEILOT Y CANOLFANNAU IAITH

- 2.1 Bydd pob Canolfan Iaith yn rhan o'r ymchwil fydd yn sail i fesur effaith y cynllun peilot a weithredir eleni yng Nghanolfan Iaith Maesincla.

### a) Strwythur Dyddiol y Canolfannau Iaith

- 2.2 Bydd yr ymchwil yn ystyried trefniadau dydd i ddydd y dysgu a'r addysgu ymhob Canolfan Iaith, sef ar ba gyfnodau yn ystod y diwrnod gwaith y mae pob Canolfan yn cynnal:

- un grŵp dysgu gyda 2 athro (uchafswm ratio 2:16)
- un grŵp dysgu gydag athro a chymhorthydd (uchafswm 2:16)
- un grŵp dysgu gydag 1 athro (uchafswm ratio 1:16)
- un grŵp dysgu gyda chymhorthydd (uchafswm ratio 1:16)
- dau grŵp dysgu (uchafswm ratio 1:8)
- arall

- 2.3 Mae niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r Canolfannau Iaith yn gallu amrywio hyd at uchafswm o 16 disgybl. Golyga hyn y gall niferoedd y disgyblion yn y grwpiau dysgu ymhob Canolfan amrywio ar sail cyfanswm niferoedd y plant, a rhoddir ystyriaeth briodol i hynny fel rhan o'r ymchwil.

### b) Gwybodaeth Gefndirol

- 2.4 Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol a gesglir am bob disgybl, bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried gwybodaeth gefndirol ychwanegol am y plant a'u teuluoedd sydd wedi symud i

Wynedd ynghyd â'u cysylltiad a'u profiadau blaenorol neu bresennol gyda'r Gymraeg cyn mynychu'r Ganolfan Iaith.

2.5 Bydd y wybodaeth yma'n cynnwys:

- Pryd y bu iddynt symud i Wynedd?
- A ydynt wedi byw yng Ngwynedd yn flaenorol?
- Prif resymau dros symud i Wynedd?
- A oes unrhyw aelodau o'r teulu neu'r teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg?
- A ydynt yn mynychu gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?
- A ydynt yn credu ei bod yn fanteisiol dysgu'r Gymraeg?
- A oes gan y plentyn brofiad o'r iaith Gymraeg cyn symud i Wynedd?
- A oes gan y plentyn gyswllt gyda rhywun y tu allan i'r ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg?
- Beth mae'r plentyn yn obeithio ei gyflawni o ddysgu'r iaith Gymraeg?

2.6 Bydd y wybodaeth yma'n fodd o sefydlu gwaelodlin o gefndir y plant, oedran, blwyddyn ysgol, eu hagweddau ynghyd â'u cysylltiad blaenorol efo'r Gymraeg, fydd yn sail i'r ymchwil ar draws y Canolfannau Iaith.

### **c) Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith**

2.7 Elfen allweddol o'r ymchwil hefyd yw mynychu'r Canolfannau Iaith er mwyn ystyried, gweld a mesur y cynnydd ieithyddol a wneir gan y plant yn ystod eu cyfnod mewn Canolfan.

2.8 Bydd Tîm ar ran yr Adran Addysg yn mynychu'r Canolfannau Iaith ar dri chyfnod penodol yn ystod y cwrs i allu mesur cynnydd ieithyddol y plant, sef oddeutu:

- Cynradd: Wythnos 4, 8 a 12
- Uwchradd: Wythnos 3, 6, 8

Bydd y Canolfannau Iaith yn llunio meini prawf ar sail cynnwys y cwrs o'r cynnydd a'r patrymau iaith y dylai'r plant fod wedi eu meistroli erbyn y cyfnodau allweddol cytunedig hynny yn ystod y cwrs.

2.9 Bydd y tîm yn dod i farn a yw'r plant wedi cyflawni'r cynnydd disgwylidig ai peidio, a hynny mewn trafodaeth gydag athrawon a chymorthyddion y Canolfannau Iaith er sicrhau cyd-destun llawn i'r farn.

2.10 Yn unol â Chynllun Busnes y Canolfannau Iaith, bydd yr ymchwil yn mesur i ba raddau mae'r Canolfannau Iaith yn cyflawni eu pwrpas drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:

### ***Nifer/ % plant sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith***

gan ystyried hynny, ochr yn ochr â:

- Strwythur dyddiol y Canolfannau Iaith
- Gwybodaeth gefndirol a phroffil y plant
- Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith

### **ch) Adborth gan Ysgolion**

- 2.11 Mae ysgolion yn randdeiliaid amlwg i'r Canolfannau Iaith wrth iddynt gyfeirio a derbyn newydd-ddyfodiaid yn ôl wedi eu cyfnod mewn Canolfan.
- 2.12 Mae adborth yr ysgolion felly am gynnydd ieithyddol y plant, a'u llwyddiant i ymdoddi i fywyd ysgol prif lif yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r ymchwil, yn ogystal â'r darlun demograffig o amgylch yr ysgolion hynny y mae'r newydd-ddyfodiaid yn dychwelyd iddynt.

### **3. YSTYRIAETHAU ERAILL**

- 3.1 Cynhelir yr ymchwil hwn fydd yn sail i asesu effaith gweithredu'r cynllun peilot am y tro cyntaf yn ystod Tymor yr Hydref 2019, ac yna fe'i cynhelir eto gyda cohort newydd o newydd-ddyfodiaid yn y Canolfannau Iaith yn Nhymor y Gwanwyn 2020.
- 3.2 Mae'r Adran Addysg a'r Canolfannau Iaith yn cydnabod y bydd cynnal yr ymchwil hwn am y tro cyntaf y tymor hwn yn broses o ddysgu, ac o bosib fe fydd addasiadau i rai elfennau o'r ymchwil erbyn yr ail-dymor yn sgil y broses ddysgu honno.
- 3.3 Mae'r Adran Addysg yn croesawu'r drafodaeth agored a pharhaus gyda staff y Canolfannau Iaith er sicrhau y bydd yr adroddiad ymchwil a gyflwynir – ac a fydd yn sail i strwythur y Canolfannau Iaith i'r dyfodol - yn seiliedig ar ymchwil gwyddonol, cytbwys, a theg.

### **4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno syniadau ac awgrymiadau all gyfrannu at yr ymchwil y bwriedir ei gynnal i fesur effaith gweithredu'r peilot mewn un Canolfan Iaith;
- fynegi barn ar y modd y bwriedir mesur effaith gweithredu'r peilot mewn un Canolfan Iaith.